# GEIRFA ALLWEDDOL

**ADFERIAD** - gwella person a fu yn ddrwg i fod yn dda.
**ADFERIAD** - pan mae person yn cael ei ail sefydlu o fewn cymdeithas ar ôl cyfnod o droseddu neu o afiechyd - *rehabilitation*.
**ADL – ANTI DEFAMATION LEAGUE** - mudiad sy’n ceisio atal pob math o gasineb yn erbyn pobl.
**ADRAN YMCHWILIAD TROSEDDOL** - *C.I.D.*.
**BREGUS** - person sy’n debygol o gael ei niweidio neu o ddioddef mewn rhyw ffordd – *vulnerable*.
**CAPLAN** - Person sy’n gweithio yn enw crefydd arbennig mewn sefydliad, e.e. yn y fyddin, carchar, ysgol, ysbyty – *chaplain*.
**CATEGORI B** - mae troseddwyr yn cael eu gosod mewn categori wrth gael eu hanfon i’r carchar, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, neu’r angen i gadw’r carcharor o dan glo. Nid oes angen unedau diogelwch dwys ar droseddwyr categori B ond rhaid i’r carchar fod yn un caeedig fel nad oes modd iddo/iddi ddianc.
**COSB** - y penyd a roddir ar rywun am ryw drosedd neu ddrwg a wnaethant.
**CYFIAWNDER** - trin pobl yn deg.
**CYFIAWNDER** - sicrhau’r hyn sy’n iawn ac yn deg.
**CYFIAWNDER** - tegwch, yr hyn sy’n iawn – *justice*.
**CYMOD** - dod i berthynas a rhywun ar ôl ffrae.
**CYMUNEDAU FFYDD** - Bod yn ben neu fod a grym dros eraill.
**DEDDF CASINEB HILIOL A CHREFYDDOL** - cyfraith i atal casineb yn erbyn pobl oherwydd eu hil neu grefydd.
**DIENYDDIO** - gosod rhywun i farwolaeth fel cosb.
**DIWYGIO** - newid er gwell.
**EDIFARHAU** - teimlo’n sori am wneud rhywbeth - *to repent*.
**EDIFEIRIOL** - - teimlo’n sori am wneud rhywbeth - *repentant*.
**GOSTYNGEIDDRWYDD** - peidio â chanmol neu wthio chi’ch hun ar draul eraill.
**GWEINIDOGAETH** - gwaith mae person yn ei wneud dros Dduw – *ministry*.
**HONNI** - *to claim, to assert*.
**ISLAMOFFOBIA** - casineb yn erbyn credoau a dilynwyr Islam.
**JOHN LENNON** - un o sylfaenwyr y Beatles.
**KARUNA** - tosturi.
**MADDEUANT** - bod yn barod i anghofio am y drwg a fu gan symud ymlaen.
**MERTHYR** - person sy’n dewis marw dros yr hyn y mae’n ei gredu.
**METTA** - caredigrwydd yn llawn o gariad.
**RHAGFARN** - barnu heb wybodaeth na phrofiad.
**RHEOL EURAIDD** - y rheol sydd ym mhob un o brif grefyddau’r byd i drin pobl eraill fel yr hoffech gael eich trin eich hun.
**STEREOTEIPIO** - rhoi un disgrifiad ar gyfer pawb sy’n perthyn i grŵp arbennig.
**TOSTURI** - rhoi eich hun yn esgidiau rhywun arall er mwyn eu sefyllfa a chydymdeimlo.
**TRAIS** - gweithred sy’n achosi niwed corfforol / gorfodi person arall i gael rhyw - *violence / rape*.
**TROSEDD** - gweithred anghywir y gellir cosbi rhywun amdano yn ôl y gyfraith.
**TROSEDD** - wrth dorri’r gyfraith mae person yn cyflawni trosedd – *crime*.
**TYSTIO** - siarad yn bersonol am ddigwyddiad/profiad - *to witness, to attest*.
**Y GOSB EITHAF** - y gosb fwyaf posib, e.e. crogi neu cadair drydan er mwyn cosbi llofrudd.
**YSBEILIAD ARFOG** - *armed robbery*.
**YSGRIFAU SANCTAIDD** - llyfrau sy’n cyflwyno gwybodaeth am Dduw neu am grefydd arbennig - *holy writings/holy scripture*.